Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynwch am:*
*Ffôn:*
*E-Bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 16 Gorffennaf 2020

Annwyl Ddisgyblion,

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, byddaf bob amser yn ysgrifennu at ein hysgolion i edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi mynd yn dda ac i ddathlu eich llwyddiannau.  Ers dechrau'r pandemig, mae gwaith caled ein penaethiaid, staff yr ysgol a'r disgyblion wedi fy ngwneud yn falch iawn. Rydych chi, eich rhieni a'ch gofalwyr, a'ch athrawon wedi bod yn dysgu ac addysgu o gartref, gan ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n newydd i lawer ohonom. Mae rhai ohonoch chi hefyd wedi mynychu'r ysgol fel bod eich rhieni a'ch gofalwyr yn gallu parhau â'u gwaith mewn gwasanaethau pwysig, fel y gwasanaeth iechyd.

Bydd llawer ohonoch yn gwybod bod eich ysgolion yn gweithio'n galed i baratoi i'ch croesawu'n ôl yn ddiogel ym mis Medi.

I'r rhai ohonoch nad ydych wedi bod yn yr ysgol cyn gwyliau'r haf, byddwch yn sylwi ym mis Medi y bydd rhai pethau'n wahanol o ran yr hyn yr ydych wedi arfer ag ef.  Mae'r newidiadau hyn yno er diogelwch pawb.  Er enghraifft:

- Bydd gofyn i chi olchi eich dwylo'n amlach.
- Byddwch yn gweld mwy o lanhau yn cael ei wneud o gwmpas yr ysgol.
- Efallai byddwch yn dechrau'r diwrnod neu gael cinio ar amser gwahanol.
- Bydd angen i chi gymryd pecyn bwyd gyda chi am yr wythnosau cyntaf.
- Efallai y bydd eich ysgol yn penderfynu na fydd pob disgybl yn dychwelyd ar yr un diwrnod.
- Efallai y bydd angen i drefniadau clwb brecwast neu glwb ar ôl ysgol newid.
- Os ydych yn teithio i'r ysgol ar fws neu mewn tacsi, mae'n debygol y bydd angen i chi wisgo mwgwd wyneb a gall eich amseroedd teithio fod yn wahanol.

**Bydd eich ysgol yn esbonio unrhyw newidiadau i chi a'ch rhieni a'ch gofalwyr cyn eich diwrnod cyntaf yn ôl.**

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi i gyd.  Gobeithio y cewch chi haf diogel a hapus ac edrychwn ymlaen at eich croesawu nôl ym mis Medi.

Yn gywir

N. J. Williams

Nick Williams
Cyfarwyddwr Addysg

To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL